Hawdd ei Ddeall

# Llais

## Beth mae'r sefydliad newydd yma yn mynd i'w wneud fel bod pobl yn cael eu clywed



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Llais**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ein 100 diwrnod cyntaf**'.

**Mai 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi cefnogaeth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llais**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.llaiscymru.org

E-bost: ymholiadau@llaiscymru.org

Ffôn: 02920 235 558

Fe wnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru wneud y ddogfen yma yn 'Hawdd ei Ddeall' gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols: 403527247.

# Am Llais


Mae Llais wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn gallu cael llais yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni eisiau i bobl dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.



Rydyn ni'n annibynnol ac eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl yng Nghymru lais am iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod anghenion pobl yn cael eu hateb ac mae llesiant yn cael ei wella.

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni eisiau eu gwneud yn ystod ein 100 diwrnod cyntaf:**



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod parch, annibyniaeth a chynnwys pawb yn ganolog i'n holl waith.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill yng Nghymru i ddarganfod sut i gydweithio yn y ffyrdd gorau.



Fe fyddwn ni yn gofyn i bobl ar draws Cymru beth maen nhw'n credu dylai ein cynlluniau a'n nodau fod.



Fe fyddwn ni yn gofyn i bobl beth ydy'r ffyrdd gorau a mwyaf hawdd i ni weithio gyda nhw.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr ein bod ni yn weithgar ym mhob rhan o Gymru.



Fe fyddwn ni yn ysgrifennu am y gwaith rydyn ni yn ei wneud ym mhob ardal.




Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phobl i wneud rheolau am sut i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal a theg.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe fyddwn ni yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella sut i weithio ar-lein mwy.



Fe fyddwn ni'n gweithio i ddod o hyd i wirfoddolwyr ar draws Cymru sydd eisiau helpu i wneud yn siŵr bod gan bobl lais am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.




Fe fydd swyddi newydd i helpu datblygu ein gwaith.



Fe fyddwn ni yn rhannu gwybodaeth gan y GIG ac awdurdodau lleol gyda phobl.



Fe fyddwn ni yn cefnogi pobl i godi pryderon sydd ganddyn nhw.




Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud yn y 100 diwrnod cyntaf.



Fe fydd yn helpu i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl yn cael eu clywed.



A helpu i wneud yn siŵr  bod gennym ni wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell yng Nghymru.